

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 y.h. Nos Fawrth 15 Chwefror 2022.

Presennol: Cynghorydd Dyfed Williams – Cadeirydd

Cynghorwyr: Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Gordon Owen a Lowri Owen.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (Clerc)

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Sharon Parry, Einir Thomas a William Victor Owen.
2. **Datganiad o ddiddordeb** – Cyng. G. O. Jones a Cyng. Gordon Owen yn datgan diddordeb personol yn eitem 5.1.
3. **Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol** - Derbyniwyd fod cofnodion 17 Ionawr 2022 yn gywir - (Cynnig Cyng. Celfyn Furlong, eilio yng. Siân Enfys Jones)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion**
 - 4.1 Cae Chwarae: Dim byd pellach i'w adrodd am yr offer a addawyd gan Kenton Jones Ltd.
 - 4.2 Llwybrau – Roedd y clerc yn dal i ddisgwyl am brisiau.
 - 4.3 Hysbysfwrdd – roedd Adran Tai'r Cyngor Sir yn hapus i hysbysfwrdd gael ei godi ar eu tir wrth yr Eglwys yn Llanfihangel yn Nhowyn ar yr amod bod y Swyddogion Cynllunio hefyd yn gytûn. Gofynnwyd am gyngor gan yr Adran Gynllunio.
 - 4.4 Materion parcio Caergeiliog – Dim byd pellach i'w adrodd.
 - 4.5 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion - dim.
5. **Materion Plwyfol**
 - 5.1 Y Neuadd Caergeiliog - nodwyd bod angen buddsoddiad sylweddol yn y neuadd i wneud gwaith ar y system trydan, symud y boeler nwy ac ati, cytunwyd y byddai'r Cyngor Cymuned yn helpu i dalu rhai o'r costau hyn ar yr amod bod y dyfynbrisiau gofynnol yn cael eu darparu.
 - 5.2 Mannau pasio - Nodwyd fod gwaith wedi ei ddechrau ar greu llefydd i geir basio ar y lon heibio Cerrig Iago.
6. **Penderfyniadau Cynllunio**
 - 6.1 HHP/2021/391 Cerrig Cynrig, Hunters Rise, Caergeiliog - caniatâd.
 - 6.2 HHP/2021/362 Croeso, Caergeiliog - caniatâd.
7. **Ceisiadau Cynllunio**

CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

7.1 **FPL/2022/13 Glanrhyd Isaf, Fali**
Cais llawn ar gyfer codi sied amaethyddol i storio peiriannau – dim gwrthwynebiad.

8. **Materion Ariannol**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd yr adroddiad ariannol o 1.1. 2022 i 31.1.2022 ynghyd â Chysoniadau a Datganiadau Banc.

Cyfrif Cyfredol £26,401.82, Cyfrif Cadw £3,939.07.

Atgoffwyd yr Aelodau hefyd ei bod yn ofynnol iddynt ddarparu gwybodaeth TWE fel y gellid talu eu Lwfans.

9. **Taliadau i'w gwneud** : Cytunwyd i dalu'r rhain

Cyflwg mis Ionawr	£243.61	GMS Garden Service	£60
-------------------	---------	--------------------	-----

10. **Gohebiaeth - cyflwynwyd a nodwyd y canlynol:**

10.1 Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith - diweddariad Ionawr 2022

10.2 Ymgynghoriad Aseidiadau Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

10.3 Sesiynau Briffio Ar-lein: Byddwch yn Gyngorydd

10.4 Etholiadau Cyngor Cymuned 5 Mai 2022 -

10.5 Archwilio Cymru - Ffioedd 2022-23

10.6 Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref A Chymuned – Cyng. Gwilym O. Jones wedi bod i hwn, bydd y cofnodion ar gael yn fuan.

10.7 Adroddiad ar Gyfarfodydd Aml-leoliad Adran 47

10.8 Cod Cefn Gwlad: cyngor ar gyfer rheolwyr tir

11. **Adroddiadau Aelodau**

Cyng. Dyfed Williams

Gofynnodd a ellid gwneud ymholiadau gyda'r Cyngor Sir ynghylch casglu bagiau pe bai'n trefnu casglu sbwriel. Roedd y cleric am gysylltu â'r Tîm Rheoli Gwastraff.

12. **Cyfarfod Nesaf - 15 Mawrth 2022**